| | |
|---|---|
| Adroddiad i'r: | Cyngor |
| Dyddiad y cyfarfod: | 15 Mai 2018 |
| Aelod / Swyddog Arweiniol: | Y Cynghorydd Mark Young / Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd |
| Awdur yr Adroddiad: | Steve Price a Kath Jones |
| Teitl: | Amserlen y Pwyllgorau 2019, Adolygiad Blynyddol o Gydbwysedd Gwleidyddol, a Phenodi Cadeiryddion Craffu |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys gwybodaeth ac yn gofyn am benderfyniadau ar faterion yn ymwneud â phwyllgorau.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Mae'n ofynnol i'r Cyngor gymeradwyo amserlen ar gyfer 2019 yn unol â phenderfyniad y Cyngor i gynnal amserlen 18 mis er mwyn galluogi cadarnhau mannau cyfarfod ac adnoddau, cyhoeddi'r amserlen a llenwi dyddiaduron yr Aelodau. Gan fod y flwyddyn ddinesig newydd yn dechrau ym mis Mai, mae hefyd yn briodol i'r Cyngor ystyried newidiadau mewn cydbwysedd gwleidyddol a bod yn ymwybodol o sut mae trefniadau cadeirio Craffu yn gweithio.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

(i) Bod y Cyngor yn cymeradwyo'r amserlen bwyllgorau ddrafft ar gyfer 2019;
(ii) Bod y Cyngor yn ailbenodi cadeirydd ac aelodaeth bresennol y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar gyfer blwyddyn ddinesig 2018/19, yn amodol ar unrhyw newidiadau a hysbyswyd gan y Grwpiau; a
(iii) Bod y Cyngor yn ystod cydbwysedd gwleidyddol y pwyllgorau.

## 4. Manylion yr Adroddiad

### 4.1 <u>Amserlen Bwyllgorau</u>

Mae'r flwyddyn ddinesig newydd yn dechrau gyda Chyfarfod Blynyddol y Cyngor ym mis Mai. Mae'r amserlen gyfredol o gyfarfodydd pwyllgorau'n parhau tan ddiwedd 2018 ac fe fydd yn cael ei hymestyn tan ddiwedd 2019 yn unol â chais y Cyngor i gynnal amserlen 18 mis. Mae'r amserlen ddrafft ar gyfer 2019 yn amgaeedig fel atodiad 1 ac mae hefyd yn cynnwys eglurhad fesul pwyllgor o'r ffactorau sydd y tu ôl i nodi dyddiadau addas ar gyfer pob cyfarfod.

### 4.2 <u>Adolygiad Blynyddol o Gydbwysedd Gwleidyddol</u>

Mae'n ofynnol i'r Cyngor o leiaf yn flynyddol i ystyried sut mae aelodaeth ei bwyllgorau yn ymwneud â chydbwysedd gwleidyddol y Grwpiau. Mae newidiadau i aelodaeth pwyllgorau a chryfder y grwpiau gwleidyddol yn golygu nad yw pob pwyllgor yn wleidyddol gytbwys ar hyn o bryd, ac mae'r rhain yn cael eu dangos yn atodiad 2.

Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, mae'r argymhellion yn y tablau yn atodiad 2 yn berthnasol. Gweler aelodaeth wirioneddol pob un o'r pwyllgorau yn atodiad 3 er gwybodaeth.

4.3 <u>Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd</u>

Mae Adran 11 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn mynnu bod y Cyngor yn penodi pwyllgor i adolygu pa mor ddigonol yw darpariaeth gan yr awdurdod o ran staff, gofod ac adnoddau eraill i gyflawni swyddogaethau gwasanaethau democrataidd, ac i lunio adroddiadau a gwneud argymhellion i'r awdurdod mewn perthynas â'r ddarpariaeth honno.

Rhaid i aelodau'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd gael eu penodi gan y Cyngor Llawn. Ni fydd unrhyw aelodau cyfetholedig. O dan y Mesur ni fydd mwy nag un aelod o'r Cabinet ar y Pwyllgor (ac ni all fod yr Arweinydd), ond penderfynodd y Cyngor ym mis Mai 2012 y byddai'r aelodaeth yn 11 o gynghorwyr ac ni fyddai'n cynnwys aelodau o'r Cabinet.

Rhaid i'r Pwyllgor fod yn wleidyddol gytbwys a rhaid i’r Cyngor benodi cadeirydd sydd ddim yn aelod o unrhyw un o'r grwpiau gwleidyddol a gynrychiolir ar y Cabinet. Yn Sir Ddinbych, mae hyn yn golygu y bydd y cadeirydd yn aelod o’r grŵp Llafur neu Blaid Cymru. Y cadeirydd presennol yw’r Cynghorydd Alan James.

Mae aelodau presennol y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn cael eu dangos yn atodiad 3.

4.4 <u>Penodi Cadeiryddion y Pwyllgorau Craffu</u>

Yn ôl egwyddorion ar gyfer dyrannu cadeiryddion Craffu, ym Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 bydd gan y Grwpiau a gynrychiolir yn y Cabinet (Annibynnol a Cheidwadwyr), yr hawl i gadeirio 1 o'r 3 pwyllgor craffu, a bydd y grwpiau hynny’n penderfynu ymysg ei gilydd pa un o'u haelodau cymwys fydd yn gadeirydd. Mae Grwpiau Llafur a Phlaid Cymru â’r hawl i benodi 1 cadeirydd craffu'r un.

Nid yw'r Mesur na'r canllawiau statudol cysylltiedig yn gwneud darpariaethau ar gyfer newid neu ail-benodi cadeiryddion craffu, ac eithrio pan fo'r cyfansoddiad gwleidyddol yn newid yn y Cabinet neu lle mae swydd cadeirydd craffu yn wag am ryw reswm. Felly mae penodi cadeiryddion am y flwyddyn ddinesig newydd yn fater i'r grwpiau gwleidyddol i’w ystyried ac i roi gwybod am unrhyw newidiadau.

## 5. Sut mae’r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae'r penderfyniadau a gwybodaeth yn deillio o'r adroddiad hwn yn ganolog i weithrediad y systemau democrataidd a phwyllgor sydd yn elfennau hanfodol o drefniadau llywodraethu'r Cyngor ac yn cyfrannu at flaenoriaethau corfforaethol y Cyngor.

## 6. Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Mae costau cynnal system pwyllgorau yn cael eu cynnwys o fewn y cyllidebau presennol ond fe wnaeth y Cyngor ymrwymiad yn 2015, drwy ei broses *Rhyddid a Hyblygrwydd,* i leihau nifer y cyfarfodydd pwyllgor a gynhelir i arbed costau cysylltiedig. Gall gwasanaethau ar draws y Cyngor gyfrannu at y cyfarfodydd a gynhwysir yn yr amserlen, fel arfer trwy gyfrannu gwybodaeth, adroddiadau ac amser swyddogion.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

Nid oes angen Asesiad o Effaith ar Les ar gyfer yr adroddiad hwn.

Mae'r amserlen flynyddol o gyfarfodydd yn broses sefydledig ac yn cwrdd ag amcanion lles a deddfwriaeth gydraddoldeb. Y prif 'ddefnyddwyr gwasanaeth' yw'r aelodau o'r pwyllgorau a'r swyddogion ategol, er bod y wasg a'r cyhoedd hefyd yn gallu mynychu'r mwyafrif o gyfarfodydd, neu'n gallu gwylio cyfarfodydd gwe-ddarlledu ar-lein. Mae lefel y diddordeb neu'r ymgysylltiad ag unigolion neu grwpiau'n debygol o ddibynnu i raddau helaeth ar y pwnc o dan ystyriaeth.

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi eu cynnal gyda'r Pwyllgor Craffu ac eraill?

Ymgynghorir â'r Cyngor a'r grwpiau gwleidyddol yn y Cyngor ar y materion a godwyd yn yr adroddiad hwn. Ymgynghorwyd â'r swyddogion sy'n cefnogi gwaith y pwyllgorau gwahanol ynghylch yr amserlen bwyllgor, i nodi dyddiadau posibl ar gyfer cyfarfodydd.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Nid oes unrhyw gostau ychwanegol yn deillio o'r argymhellion yn yr adroddiad hwn.

## 10. Pa risgiau sydd yna ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Byddai methu â chadarnhau rolau cynghorau ac aelodaeth pwyllgorau'n niweidiol i drefniadau llywodraethu'r Cyngor.

## 11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Atodlen 12 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972; Deddf Tai a Llywodraeth Leol 1989; Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.